# Dyfodol cynaliadwy: cyfraniad gwaith ieuenctid i bolisi 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' Llywodraeth Cymru ac i'r adolygiad 'Dyfodol Llwyddiannus'

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (Llywodraeth Cymru 2015) ac argymhellion adolygiad Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson 2015) yn rhoi cyfle o'r newydd i waith ieuenctid yng Nghymru brofi'i werth a chreu dyfodol cynaliadwy iddo'i hun.

Fel gweithiwr ieuenctid proffesiynol, yr hyn sydd wedi fy nghymell i a'm cydweithwyr bob amser yw gwneud ein gorau glas dros y bobl ifanc rydym yn ymwneud â nhw ac, ar y cyfan, gan alinio ein gwaith â gwerthoedd craidd gwaith ieuenctid: meithrin perthnasau er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn addysg heb fod yn ffurfiol a phrosesau dysgu anffurfiol a chymryd rhan mewn deialog feirniadol gyda phobl ifanc. (NOS 2012)

At hynny, yn y sector mae bob amser wedi bod sgeptigaeth iach ynghylch polisi diweddaraf y llywodraeth, gwaith papur ychwanegol sy'n ein tynnu oddi wrth ein gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc, a systemau i dracio ein gwaith a'n defnyddwyr.

Mae gwaith ieuenctid bob amser wedi cael trafferth i'w brofi'i hun i wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau, er ein bod ni'n gwybod bod pobl ifanc yn dysgu mewn modd unigryw gyda ni. Mae wedi'i chael hi'n anodd bod yn atebol, er ein bod ni'n gwybod ei fod yn gallu cael effaith sy'n newid bywydau. Mae wedi dioddef toriadau cyllideb anghymesur (Unison 2014), er ein bod ni'n gwybod ei fod yn darparu gwerth eithriadol am arian.

Yn y cyfnod cyfredol o gyllidebau cyfyngedig sy'n lleihau fwyfwy, mae hyd yn oed yn fwy pwysig dangos cwmpas ac effaith ein gwaith i'n cyllidwyr ac i wneuthurwyr polisi.

Mae'r agenda bolisi yng Nghymru wedi sicrhau bod gwaith ieuenctid wedi datblygu natur unigryw sy'n ei osod ar wahân i waith yn rhannau eraill y DG. Mae hyn yn cynnwys: cyfranogiad pobl ifanc wedi'i gefnogi gan *Ymestyn Hawliau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002); y dull gweithredu seiliedig ar hawliau yng Nghonfensiwn y CU *UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC)* (Unicef 1989); *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018* a'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* cysylltiedig (Llywodraeth Cymru 2014).

Bydd angen i ymateb y sector gwaith ieuenctid i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i *Dyfodol Llwyddiannus* hyrwyddo a chryfhau'r gwaith sydd wedi'i gyflawni'n flaenorol. Rhaid i'r dulliau a ddefnyddir gynnwys holl actorion y sector. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau ieuenctid dan ofal awdurdodau lleol, elusennau'r trydydd sector, cwmnïau bach a grwpiau cymunedol a'r sectorau addysg uwch.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'):
"...yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol."
(Llywodraeth Cymru 2015: 3)

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n cytuno'n gryf â dulliau gweithredu gwaith ieuenctid. Er bod y ddyletswydd i gyflawni'r Ddeddf yn berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yn unig, bydd yn hanfodol i ni ddefnyddio dulliau traws-sector wrth ei gweithredu, pa un a dderbynnir cyllid yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan ffynonellau llywodraeth ai peidio.

Bydd yn hollbwysig dangos effaith ein gwaith yng nghyd-destun y Ddeddf. Gallem wneud hyn drwy alinio nodau'r sector ieuenctid â'r saith nod llesiant a restrir yn y Ddeddf. Y nodau yw: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae gan y nodau llesiant synergedd â darpariaethau yn *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru* a'r *Siarter Gwaith Ieuenctid* (Llywodraeth Cymru 2016).

Gall gwasanaethau ieuenctid gyflwyno rhaglen waith sy'n mynd i'r afael â meysydd allweddol gyda phobl ifanc yn cynnwys pynciau iechyd, datblygu sgiliau, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae nifer o'r 46 dangosydd cenedlaethol a awgrymwyd er mwyn mesur y cynnydd tuag at y nodau llesiant, yn uniongyrchol berthnasol i weithgarwch y mae'r sector gwaith ieuenctid yn cymryd rhan ynddo. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r dangosyddion hyn: canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ gael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt; canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i fesur ar gyfer grwpiau oed gwahanol. (Llywodraeth Cymru, 2016). Gallwn ddefnyddio'r dangosyddion hyn i roi tystiolaeth o sut rydym ni'n gwireddu'r nodau llesiant.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid gwneud y gwaith o ennyn diddordeb pobl ifanc a'u cael nhw a gweithwyr ieuenctid i gymryd rhan yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn flaenoriaeth ac i'r sector ddilyn y safonau cyfranogi a nodir yn *Cael Llais, Cael Dewis* (Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru 2011). Bydd hyn yn parhau â'r gwaith a gwblhawyd yn rhan o *Ymestyn Hawliau* a bydd yn sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid yn dilyn strategaeth sydd wedi'i chysylltu â gwasanaethau cyhoeddus eraill. Hefyd, bydd yn caniatáu i bobl ifanc feddu ar lais.

Mae darpariaethau o fewn y Ddeddf yn cytuno'n gadarn â nodau'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:

- Archwilio eu llesiant gyda phobl ifanc.
- Dylanwadu ar strategaethau gwaith ieuenctid a'u datblygu (gweithwyr ieuenctid).
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
  (NOS: 2012)

**Dyfodol Llwyddiannus**

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* gan Donaldson yn adolygiad eang o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

Mae Donaldson yn adfyfyrio bod rhaid i'r system addysg helpu pobl ifanc i:
"... dyfu'n unigolion galluog ac iach sydd â chymeriad crwn a fydd yn gallu ffynnu yn wyneb heriau'r dyfodol."
(Donaldson 2015: 5)

Bydd ei adolygiad yn rhoi cyfle i'r sector gwaith ieuenctid ddangos ei gyfraniad i addysg pobl ifanc yng Nghymru. Yn arwyddocaol, hoffai Donaldson weld cyfranogiad cymunedol ehangach yn addysg pobl ifanc.

Mae Gwaith Ieuenctid yn ddelfrydol ar gyfer gweithio tuag at y weledigaeth o'r 'dysgwr sydd wedi'i addysgu'n dda' y mae'r adolygiad yn ei ddisgrifio ac mae'n gallu cyflawni mwy na'r disgwyl gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ac wrth ddarparu addysg amgen a heb fod yn ffurfiol.

Mae'r argymhellion ynghylch dibenion y cwricwlwm ym mhennod 3 yr adolygiad yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn gadael yr ysgol ag addysg eang. Nid yw egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2013) yn annhebyg i'r argymhellion isod sy'n nodi y dylai pobl ifanc ddatblygu:

› yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

› yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
› yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
› yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
(Donaldson 2015: 29)

Yn bwysig, mae'r adolygiad yn nodi "Roedd cymwyseddau cymdeithasol cyffredinol, sgiliau bywyd a hyder personol oll yn cael eu hystyried yn bethau pwysig i'w cael" (Donaldson 2015:17). Byddem i gyd yn cytuno mai dyma brif ffocws gwaith ieuenctid, a bod hwn yn rhywbeth mae'n rhaid i ni fel proffesiwn ei hyrwyddo yn ystod y cyfnod o weithredu'r adolygiad; mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gwaith ieuenctid yn dangos yr arfer proffesiynol ac unigryw y gall gwaith ieuenctid ddod ag ef i addysg pobl ifanc. (NOS 2012)

## Dyfodol cynaliadwy - y Gymru a Garem

Ystyrir yn eang mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r darn o ddeddfwriaeth gyntaf yn y byd â chysylltiadau â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU (United Nations 2015). Drwy egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i sefydliadau "sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau" (Llywodraeth Cymru 2016: 7). Mae potensial enfawr i'r sector ieuenctid yng Nghymru ei hyrwyddo a'i brofi'i hun yn opsiwn cynaliadwy blaenllaw ar gyfer hyrwyddo ein dyheadau ninnau a'r Llywodraeth ar gyfer pobl ifanc.

Y genhedlaeth nesaf o bobl ifanc a fydd yn creu "y Gymru a garem". Fel gweithwyr ieuenctid rydym ni'n ddarn pwysig yn jig-so addysg, datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc, darn sydd â'r gallu a'r profiad i ennyn diddordeb pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd darparu ystod ehangach o addysg heb fod yn ffurfiol a phrofiadau dysgu anffurfiol ar gyfer yr holl bobl ifanc, yn ogystal ag addysgu'r bobl ifanc hynny sy'n ei chael hi'n anodd mewn addysg brif ffrwd, yn creu "dyfodol llwyddiannus" i'r holl bobl ifanc.

Bydd sector unedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i ymdrechu i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'i gweledigaethau beiddgar yn sicr o annog gwneuthurwyr penderfyniadau i'n cymryd ni o ddifrif ac yn ddiamau bydd yn arwain at gamau a fydd yn rhoi gwaith ieuenctid ar sylfaen fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Blaenoriaethau

1. Yr angen i ddangos gallu unigryw'r sector ieuenctid i weithredu argymhellion Donaldson. Mae hyn yn cynnwys cryfderau gwaith ieuenctid o ran darparu addysg bersonol a chymdeithasol yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned ehangach.
2. Mae ffocws ein gwaith gyda'r genhedlaeth nesaf, felly rhaid i'r sector lunio cynllun gweithredu eglur ynglŷn â'r modd y bydd yn cyfrannu i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
3. Adnewyddu egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid i adlewyrchu'r dyheadau yn y ddau bwynt cyntaf a chymryd y cyfle hwn i ddatblygu cwricwlwm gwaith ieuenctid newydd i Gymru.
4. Dylai datblygiad *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid* (Llywodraeth Cymru 2016) cydlynus sy'n cefnogi'r Siarter Gwaith Ieuenctid newydd ddangos sut mae gwaith ieuenctid yn cyflawni o ran yr argymhellion o fewn *Dyfodol Llwyddiannus* ac mae'n helpu i wireddu'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer y nodau llesiant.
5. Ailwampio'r dangosyddion cyfredol a ddefnyddiwn i fesur cynnydd pobl ifanc er mwyn adlewyrchu'r dangosyddion cenedlaethol, gan weithio tuag at y nodau llesiant a dangos blaenoriaethau Donaldson.
6. Sicrhau bod lleisiau pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid yn cael eu clywed ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar hyd y gwaith o weithredu argymhellion Donaldson.
7. Mae dulliau gweithredu unedig ar draws y sector ieuenctid wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau newydd hyn yn hanfodol.

Jamie Jones-Mead, 2016

**Cyfeiriadau**

Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru (2011) *Cael Llais, Cael Dewis: Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau* (Darllenwyd ar-lein 20/5/16)

Donaldson G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru.

National Occupational Standards (NOS) (2012) *Youth Work National Occupational Standards* (Accessed online 23/06/16)

Unicef (1989) *The United Nations Convention on the Rights of the Child*. Unicef

Unison (2014) *The UK's Youth Services: how cuts are removing opportunities for young people and damaging their lives*. Unison: London (Accessed online 23/06/16)

United Nations (2015) *Transforming our world: The 2030 Agenda for Sustainable Development* A / RES / 70 / 1 UN HQ New York. United Nations (Accessed online 21/05/16)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru*. Llywodraeth Cynulliad Cymru (Darllenwyd ar-lein 25/06/16)

Llywodraeth Cymru (2010) *Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. (Darllenwyd ar-lein 14/05/16)

Llywodraeth Cymru (2014) *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018: Helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial a byw bywydau bodlon*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru (Darllenwyd ar-lein 22/05/16)

Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Yr hanfodion*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru (Darllenwyd ar-lein 14/05/16)

Llywodraeth Cymru (2016) *Sut mae mesur cynnydd cenedl: Dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru (Darllenwyd ar-lein 14/05/16)

Llywodraeth Cymru (2016) *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid: Dogfen Ymgynghori: Gweledigaeth ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru*. Cyffordd Llandudno. Llywodraeth Cymru (Darllenwyd ar-lein 21/05/16)

Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2013) *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*. Cymru. (Darllenwyd ar-lein 20/05/16)